PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 13 | Mawrth 30, 2023 | 50c.

# Marchogaeth i Jerwsalem

## (Marc 11: –11; Luc 19:28–38; Ioan 12:12–19)

1 Dyma nhw'n cyrraedd Bethffage wrth Fynydd yr Olewydd yn ymyl Jerwsalem, a dyma
Iesu'n dweud wrth ddau ddisgybl, 2 'Ewch i'r pentref acw sydd o'ch blaen chi, ac wrth
fynd i mewn iddo dewch o hyd i asen wedi'i rhwymo a'i hebol gyda hi. Dewch â nhw
yma i mi, 3 ac os bydd rhywun yn ceisio'ch rhwystro, dwedwch, "Mae'r meistr eu hangen
nhw; bydd yn eu hanfon yn ôl wedyn."'
4 Digwyddodd hyn er mwyn i beth ddwedodd Duw drwy ei broffwyd ddod yn wir:

5 'Dwed wrth bobl Seion,
"Edrych! Mae dy frenin yn dod!
Mae'n addfwyn ac yn marchogaeth ar asen;
ie, ar ebol asyn."'

6 I ffwrdd â'r disgyblion, a gwneud yn union beth
ddwedodd Iesu wrthyn nhw. 7 Pan ddaethon nhw â'r asen a'i
hebol yn ôl, dyma nhw'n taflu'u cotiau drostyn nhw, a dyma
Iesu'n eistedd arnyn nhw. 8 Roedd tyrfa fawr yn gosod eu
cotiau fel carped ar y ffordd o'i flaen, neu dorri dail o'r coed
a'u lledu ar y ffordd. 9 Roedd y dyrfa y tu blaen a'r tu ôl iddo
yn gweiddi,

'Hosanna! Clod i Fab Dafydd!'
'Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd
wedi'i fendithio'n fawr!'
'Clod i Dduw yn y nefoedd uchaf!'

10 Roedd y ddinas gyfan mewn
cynnwrf pan aeth Iesu i mewn i
Jerwsalem. 'Pwy ydy hwn?' meddai
rhai. 11 Ac roedd y dyrfa o'i gwmpas yn
ateb, 'Iesu, y proffwyd o Nasareth yn
Galilea.'

beibl.net

Ti ydyw Iôr gogoniant,
ti yw Tywysog hedd,
ti ydyw Arglwydd daer a nen,
ti yw Haul Cyfiawnder nef;
plyga'r angylion ger dy fron,
canant lafar glod, cans
ti sy'n dwyn geiriau y bywyd gwir,
ti yw Iesu Grist yr Iôr.

Hosanna iddo ef, Fab Dafydd!
cans Brenin y brenhinoedd yw:
moliant fo hyd nef y nefoedd,
teyrnasu mae Meseia Duw.

MAVIS FORD cyf. CATRIN ALUN



# Heulwen dan Gymylau: Eglwysi Dementia-gyfeillgar

Erbyn hyn mae'r eglwysi ledled Cymru wedi cael cyfle i bori yn y llawlyfr *Heulwen dan Gymylau* a drosglwyddwyd iddynt yn dilyn y Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghaerfyrddin llynedd. Ers hynny, gwahoddwyd cynrychiolydd o bob Cyfundeb i ymuno mewn cyfres o gyfarfodydd rhithiol i drafod y camau nesaf, a chafwyd sesiynau wyneb yn wyneb mewn sawl lleoliad i edrych yn fanylach ar y cynnwys.

### Cyfarfod buddiol

Cafodd Emlyn Davies a Rhodri-Gwynn Jones, dau o'r gweithgor a fu'n gyfrifol am lunio'r llawlyfr, eu croesawu i Gwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yn Smyrna, Llangain ar 9 Mawrth. Daeth criw teilwng ynghyd i gael eu tywys gan y ddau drwy'r gwahanol adrannau, a chafwyd cyfarfod buddiol tu hwnt. Wrth gydnabod y croeso, dywedodd



*Rhan o'r gynulleidfa lon yng Nghwrdd Chwarter Smyrna*



*Emlyn Davies a Rhodri-Gwynn Jones*

Emlyn mai breuddwyd y gweithgor yw gweld pob cyfundeb yn perchnogi'r cynllun, ac yn troi'r ffeil yn rhaglen waith ymarferol wrth gefnogi'r ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar.

### Tri chwestiwn sylfaenol

Eglurodd mai pwrpas y cyflwyniad oedd ateb tri chwestiwn sylfaenol, sef :

Beth yw nod yr ymgyrch Eglwysi Dementia–gyfeillgar?

Pa adnoddau sydd ar gael?

Beth sy'n ddisgwyliedig gan yr eglwysi unigol?

*parhad ar dudalen 7*

# Y weinidogaeth ddoe a heddiw (8)

*Dyma'r erthygl olaf yn y gyfres hon. Diolch i'r Parchg Dr Geraint Tudur am ei sylwadau praff a heriol.*

A ninnau wedi edrych dros yr wythnosau diwethaf ar gynnwys Adroddiad y Comisiwn a godwyd gan Gyngor yr Undeb ym 1953, down yn awr at ddiwedd ein cyfres.

Yn y bumed erthygl, cyfeiriwyd at y sylwadau yr oedd y Comisiwn wedi ei wneud am 'Weithgareddau'r Eglwys', a gwelwyd fod yr arferiad o gynnal dau neu dri chyfarfod ar y Sul bellach wedi ei chwalu ac mai dim ond un a gynhelir erbyn hyn gan y mwyafrif o eglwysi. Gyda'r lleihad yn y niferoedd, y cynnydd mewn cyfartaledd oed, a chynnydd hefyd mewn costau ynni a gwresogi, gellid dweud fod hyn wedi bod yn anorfod. Daeth oes y capeli mawrion i ben, ac i'r dyfodol, os na welwn ymyrraeth uniongyrchol gan Dduw, rhaid derbyn mai ar aelwydydd y bydd eglwysi bychain y dyfodol yn cyfarfod, yn union fel ag yr oeddent yn gwneud yn nyddiau'r Eglwys Fore ac yn y Testament Newydd.

## Drysau gwydr

Diau y bydd cyfraniad merched yn bur allweddol o fewn yr eglwysi hyn. Yn rhy hir, bu'r meddylfryd 'traddodiadol' yn gwadu iddynt y cyfle i ymgymryd â dyletswyddau'n ymwneud ag arweinyddiaeth eglwysi. Do, yn raddol, fe'i derbyniwyd fel diaconiaid, ond prin fu'r rhai a fentrodd ymhellach er bod yr argyhoeddiad a'r doniau yn amlwg ganddynt. Lle ceir sôn am nenfwd gwydr mewn diwydiant, drysau gwydr fu o fewn yr eglwysi, ac mae'n hen bryd i'r drysau hynny gael eu hagor led y pen er mwyn i ferched cymwys gael camu ymlaen, cydio yn yr awenau ac arwain cynulleidfaoedd, dan law Duw.

Gall merched ddarparu'r 'arweinyddiaeth ysbrydol' y mae'r Adroddiad yn cyfeirio ato, a hefyd fod â 'gofal dros ffyniant ysbrydol' eu praidd. Ond mae mwy iddi na dim ond agor y drysau i ganiatáu i hyn ddigwydd; mae angen i'r merched hwythau ddod dros eu swildod a bwrw iddi i ysgwyddo'r cyfrifoldebau. Heb amheuaeth, gallai rhaglen o addysg a hyfforddiant, wedi ei darparu gan yr Undeb, eu galluogi i wneud hynny oherwydd un o ryfeddodau addysg yw nid yn unig ei fod yn darparu gwybodaeth ac yn datblygu sgiliau pobl, mae hefyd yn rhoi hyder, ac mae'r hyder hwnnw, yn Nuw ac yn yr hunan, yn allweddol i'r gwaith.

## Cyflog

Os cofiwch, 'Atodiad' oedd darn olaf Adroddiad y Comisiwn, ac yn enw'r lleygwyr y cyhoeddwyd ef am ei bod yn cael ei hystyried yn amhriodol i'r gweinidogion drafod eu cyflogau eu hunain. Nodwyd ei bod yn 'rhesymol disgwyl i'r saint gynnal y weinidogaeth ar gyfartaledd yr hyn y maent yn ei fwynhau eu hunain', ac yn ddiamau bydd hynny'n digwydd i'r dyfodol, ond dim ond mewn nifer fechan o eglwysi.

## Gwirfoddol

O dipyn i beth, yr ydym wedi llithro yn ôl i batrymau dyddiau cynnar Ymneilltuaeth, ac yn wir, dyddiau cynnar Cristnogaeth. Mewn llawer man, yn y blynyddoedd i ddod, bydd bod yn weinidog yn weithgarwch gwirfoddol, di-dâl, a bydd y gweinidogion a'r arweinyddion yn cael eu cyflogi i gyflawni gwaith arall gyda'r weinidogaeth yn cael ei chyflawni ochr yn ochr â hynny. Yn y fath sefyllfa, prin y gellid disgwyl i unigolyn ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau. Awgrymir, felly, mai pedwar neu bump o bobl fydd yn ymhél â gwaith gweinidogaeth o fewn eglwysi'r dyfodol. Bydd y mwyafrif ohonynt yn gwneud hynny'n gwbl wirfoddol ac yn ei hystyried yn fraint i gael gwneud hynny. I'r sawl sydd wedi arfer â'r syniad o un gweinidog cyflogedig, bydd dweud hyn yn dramgwydd, ond fel yr ydym eisoes wedi sôn yn y gyfres hon, yr ydym yn byw mewn cyfnod o newid mawr, a'r hyn y'n gorfodir ni i'w wneud yw gofyn, beth y mae Duw yn ei ddweud wrthym yn, a thrwy, y newid hwn?

## Pennod arall

Pan ddown i ddiwedd pennod mewn llyfr, nid yw hynny, o angenrheidrwydd, yn golygu fod y stori wedi gorffen. Awn ati, felly, i droi i'r dudalen nesaf a dechrau darllen y bennod newydd. Ac mae'n ymddangos yn ddigon clir erbyn hyn mai dyna sy'n digwydd i'r ffydd Gristnogol yng Nghymru yn ein dyddiau ni; daethom, yn syml, i ddiwedd pennod. Ond mae'r stori'n parhau ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Oherwydd hynny, mae angen i ni droi i'r dudalen newydd a darllen yn ein blaenau. Gadewch i ni wneud hynny yn hyderus a llawen, gan ddal i gredu yn gras a'r cariad sydd megis dilyw, a'r cyfiawnder a'r heddwch sydd, fel yn y gorffennol, yn parhau i gusanu euog fyd.

**Geraint Tudur, Bangor**



Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 30 2023 RHIF 109

# Croeso a gwrthwynebiad: Llanilltud Fawr, Rhuthun a Jerwsalem

Mae estyn 'croeso' yn rhywbeth cynhenid a greddfol a wnawn wrth i ni ddod ar draws ymwelwyr, boed ar ein haelwydydd neu yn ein heglwysi. Mae'n siŵr ein bod ni hefyd yn medru dwyn i gof adegau y bu i ninnau dderbyn croeso a derbyniad mewn sefyllfa ddiarth, ac yn ddiolchgar am y croeso hwnnw. Diau fod yna ambell sefyllfa y gallwn gofio amdano lle roeddem yn bryderus ynghylch sut groeso a derbyniad y caem, a hynny wedi bod yn destun gofid a phryder i ni. Weithiau mae rhagfarnau yn gallu creu rhwystrau a thensiynau, ac ar yr adegau hynny gwrthwynebiad yn hytrach na chroeso y profwn, sy'n siom i ni.




## Croeso a gwrthwynebiad yn Llanilltud

Dros y penwythnos cynhaliwyd protest ym Mro Morgannwg gan y mudiad asgell dde eithafol, Patriotic Alliance. Fe drefnodd y grŵp y brotest yn Llanilltud Fawr i wrthwynebu cynlluniau o fewn y dref i gartrefu ffoaduriaid o Wcráin ar safle'r hen ysgol yno. Fe ddaeth tua 20 o gefnogwyr Patriotic Alliance ynghyd, yn dal baneri'n nodi "Nid gwersyll i fudwyr yw Cymru!" a "Mae Prydain yn llawn". Y mae pryder cynyddol am dwf poblogrwydd grwpiau eithafol fel hyn, a'r 'dylanwadwyr' sy'n gweithio'n ddiwyd ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwthio eu syniadaeth eithafol ar fywydau ein pobl ifanc. Clywyd llawer am y modd y mae radicaleiddio ffwndamentalaidd Islamaidd wedi arwain pobl o Gymru i'r dwyrain canol i ymuno yn y frwydr derfysgol sy'n peryglu'n byd ar hyn o bryd. Yn yr un modd ceir tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhannu negeseuon o gasineb tuag at ffoaduriaid, ac yn annog pobl i ymuno yn y frwydr i gau allan pob math o fewnlifiad a ffoaduriaid. Mae gan y dylanwadwr Andrew Tate, sydd mewn carchar yn Rwmania erbyn hyn oherwydd ei syniadau eithafol, dros 5 miliwn o ddilynwyr ledled y byd ac yn gwthio ei syniadau asgell dde ar ein hieuenctid ar y cyfryngau cymdeithasol.

Fodd bynnag boddwyd lleisiau'r 20 eithafwr gan gannoedd o bobl leol, a oedd am fynegi'n glir nad gwrthwynebiad oedd ganddyn nhw tuag at y ffoaduriaid, ond croeso. Fe ymgasglodd bobl o'r gymuned leol i wrthwynebu protest y Patriotic Alliance ac i gyhoeddi eu bod yn croesawu'r ymwelwyr o Wcráin. Yn ystod y brotest fe gafodd teisennau cri eu dosbarthu, fel arwydd o groeso Cymreig. Yn ôl un o'r trigolion lleol, 'Rydyn fel cenedl yn croesawu pobl. Mae gweld protest fel hyn yn erbyn cartrefu pobl o Wcráin yn wrthun i fi fel Cymro. Dwi wedi clywed bod pobl wedi bod yn trio dylanwadu ar bobl ifanc a phobl eraill ac mae hynny'n annerbyniol. Rydw i yma oherwydd dydw i ddim eisiau ffasgwyr ar ein strydoedd. Fy mlaenoriaeth i yw gwneud i bobl sydd wedi gwneud Cymru yn gartref iddyn nhw deimlo bod croeso iddyn nhw yma'. Roedd trigolion y dref wedi trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol i ddangos eu gwrthwynebiad i'r brotest adain dde eithafol. Cynhaliwyd gwylnos dros nos yn Eglwys St Illtyd o dan arweiniad offeiriad y plwyf, gyda'r AS lleol Jane Hutt hefyd yn bresennol.

## Croeso tref Rhuthun

Yn ystod y dyddiau diwethaf, cyhoeddwyd rhestr gan y Sunday Times yn nodi'r 30 lle gorau i fyw ym Mhrydain. O ran y trefi brafiaf i fyw yng Nghymru, Rhuthun daeth i'r brig y tro yma ar restr y Times, gan ddisodli tref Y Fenni i'r ail safle a'r Bermo yn drydedd. Tystiolaeth y beirniaid oedd iddynt deimlo croeso cynnes a chymunedol arbennig yn Rhuthun, gydag ymgais wirioneddol i integreiddio'r trigolion trwy nifer o fentrau cymunedol. Llongyfarchiadau mawr i'r dref, a gobeithio bydd hyn yn hwb i'r sawl sy'n gweithio ar rai o'r mentrau cymunedol. Dwn i ddim beth oedd canllawiau'r beirniaid, ond o gofio mai'r Sunday Times oedd yn trefnu, mae'n debyg mai'r pwyslais oedd ar y lle gorau i ddarllenwyr eu papur oedd uchaf ar frig eu rhestr, ac mae'n bosib petai'r Big Issue yn cynnal yr un arolwg, cymunedau eraill o bosib fyddai'n dod i'r brig. Gobeithio ein bod ninnau, pa bynnag rhan o Gymru rydym yn byw ynddi, yn gwneud ein gorau i wneud ein cymunedau'r gorau y medrant fod, a hynny i bob rhan a haen o'n cymdeithas. Ai cymuned lle nad oes angen banc bwyd oherwydd cyfoeth yr ardal honno, neu gymuned lle mae'r galw'n fawr oherwydd natur y gymdeithas ddifreintiedig yw'r gymuned orau i fod yn rhan ohoni? Gyda balchder y cofiwn am gefnogaeth y trefi glofaol tuag at ei gilydd mewn cyfnodau o galedi.

## Croeso a gwrthwynebiad Jerwsalem

Rydym ninnau bellach ar drothwy cyfnod y Pasg, ac yn paratoi ar gyfer Sul y Blodau/Palmwydd. Yno, cofiwn am drigolion Jerwsalem yn llenwi'r strydoedd i groesawu Iesu i'r ddinas. 'Croeso Iesu, hosanna i Fab Dafydd, bendigedig yw'r un syn dod yn enw'r Arglwydd' oedd y gri, ac yntau'n cyrraedd yn ddiymhongar ac yn heddychlon ar gefn asyn. Eto o fewn dyddiau, roedd y croeso wedi troi'n wrthwynebiad a chondemniad. Roedd 'dylanwadwyr' y cyfnod, yr arweinwyr crefyddol a gwleidyddol, yno yn dylanwadu ar drigolion y ddinas, ac o fewn dyddiau 'Croeshoelier ef' oedd eu cri. Wrth i ni baratoi i ddathlu'r Pasg cofiwn i Iesu ddod at bawb yn ddiwahân, gan rannu neges o groeso a derbyniad, ac i herio bob anghyfiawnder, rhagfarn a gwrthwynebiad. Tybed sut fedrwn ni ddangos croeso'r Efengyl yn ein cymunedau ni y Pasg hwn? Wrth i ni droedio trwy'r Wythnos Fawr gadewch i ni ddangos tosturi, cariad a chroeso Iesu yn ein gweithredoedd a'n meddyliau, gan herio bob rhagfarn ac anghyfiawnder.

*Aled Davies*

# Ffydd a Diwylliant

## Ffiniau

Mae pob math o ffiniau anweledig ym myd y celfyddydau. Does byth fricsen na gwifren yn nodi'r ffin, weithiau mae yna reffyn tila neu linell ar lawr, ond yn amlach na pheidio does dim yno, ond mae'r ffin yn gadarn.

Fyddai neb yn mentro cyffwrdd â phaentiad mewn oriel, hyd yn oed pan mae'r paent yn drwch fel ar baentiadau Kyffin, a bron yn gofyn i chi eu profi nhw â chyffyrddiad bys yn ogystal â llygaid.

Fentrech chi byth fynd ar lwyfan yn ystod drama, ymuno yn y ddeialog, neu ateb cwestiwn rhethregol gan un o'r cymeriadau. Mae'r ffin yn anweledig ond bron yn gyfan gwbl gadarn.

A phan mae o yn digwydd, pan mae'r hud yn cael ei chwalu, mae'n cymryd dewrder neu anhap anghyffredin i gymryd y cam hwnnw i gamu dros y llinell at y darlun neu i darfu ar ddrama, mae'r hudoliaeth mor gryf. Prin ein bod ni'n ymwybodol o'r ffiniau hyn ond mae eu dylanwad nhw drosom ni yn gwbl hudol, nes bod rhywun yn eu chwalu nhw.

Mae yna ffiniau eraill nad ydyn ni'n eu gweld nhw nes eu bod nhw'n cael eu chwalu hefyd. Dyna chi olygyddion copi. Yr unig amser y byddwch chi'n ymwybodol o waith prawf ddarllenydd yw pan fyddan nhw'n methu yn eu gwaith. Fyddwch chi byth yn gorffen llyfr ac yn dweud, 'waw, roedd hwnna wedi ei ysgrifennu'n gywir'. Ond efallai y byddech chi'n cwyno os bydda fo'n llawn camgymeriadau.

Bethan Gwanas oedd y golygydd creadigol ar glasur Gareth F. Williams, *Awst yn Anogia*. Mae'n debyg bod y llawysgrif wreiddiol draean yn hirach na'r un gyhoeddwyd. Ond fe dorrodd Bethan y testun a gadael y stori yn gyflawn ac yn well nag oedd hi. Fyddai darllenydd ddim yn gwybod hynny, mae'n debyg nad ydy Bethan yn



Llun llinell Gonzalo Facello on Unsplash

cofio be dorrwyd, ond yn well byth doedd yr awdur ei hun ddim yn gweld y creithiau achos roedd y torri ar pwytho mor gelfydd.

Mae'r bobl yma, fel rhywun sy'n glanhau ffenestri'n berffaith, yn hanfodol os ydyn ni i weld y byd ar ei orau, ond os ydyn nhw'n cyflawni eu dyletswyddau'n iawn, fydd olion eu bysedd nhw ddim yn agos at y gwaith.

Yn ddiweddar, darllenais waith Victor Frankl, athronydd o Iddew, a ddioddefodd yng ngwersylloedd y Natsïaid. Yn un o'i lyfrau mae'n dyfynnu hen fyth Iddewig sy'n mynnu bod parhad y byd yn gwbl ddibynnol ar fodolaeth dim mwy na 36 o bobl gyfiawn. 36 o blith y biliynau sy'n byw ar unrhyw adeg. Lleiafrif anweledig o fychan. Ond yn fwy na hynny, mae'r 36 hynny yn **gorfod** bod yn anweledig. Unwaith y byddai un o'r rhai cyfiawn hyn yn cael eu hadnabod am yr hyn ydyn nhw mae'n nhw'n diflannu, neu'n marw ar unwaith. I fod yn effeithiol, mae'n rhaid i'w cyfiawnder nhw fod yn anweledig.

Mae hon yn her fawr i ni weithredu'n dawel, i barchu'r anweledig ac i beidio beirniadu'r rhai sy'n ymddangos fel nad ydyn nhw'n gwneud dim. Efallai eu bod nhw'n un o'r 36!

*Rocet Arwel Jones*

# Elvis Presley

A ydych yn hoffi caneuon Elvis Presley? Na, nid ei ganeuon mwyaf poblogaidd ond y rhai Cristnogol? A wyddoch iddo dderbyn 3 *Grammy Award* yn ystod ei yrfa a'r rheini i gyd am ganeuon Cristnogol?

Gelwir Elvis *The King of Rock and Roll*! Ond gwrthododd y teitl Brenin am iddo ddweud mai un Brenin sydd a hwnnw yw Iesu Grist! Ymddengys bod Cristnogaeth iddo yn gymaint o argyhoeddiad ag o arfer!

O bosibl bod gan Elvis wreiddiau Cymreig o ystyried dawn ei lais. Mae yna blwyf yn Sir Benfro o'r enw St. Elvis (Llaneilfyw) ac mae bryniau'r Preseli (Presley?) wrth law! Yn ôl Rhygyfarch Ailbe (neu Eilfyw) a fedyddiodd Dewi Sant.

Magwyd Elvis mewn tlodi yn nhref Tupelo yn nhalaith Mississippi yn Unol Daleithiau'r America yn unig blentyn ar ôl marwolaeth ei efaill yn faban. 'Roedd yn agos iawn at ei fam. Mynychodd eglwys Bentecostalaidd leol ac fe dyfodd yn sŵn alawon y *Blues*.

Recordiodd ei gân gyntaf (*That's All Right Mama*) ym 1954 ac fe ddaeth yn boblogaidd dros nos wrth i'w ganeuon cael eu darlledu ar y radio. Aeth o nerth i nerth gan berfformio mewn cyngherddau ar lwyfan ac actio mewn ffilmiau ar y sgrin fawr. Gellid ei ddisgrifio fel ffenomenon!

Llwyddodd Elvis i ganu amrywiaeth eang o ganeuon oedd at ddant bron pawb. Yn eu plith 'roedd baledi, *rock'n'roll* a chaneuon serch. Ond pwysig iawn iddo oedd caneuon *Gospel* oedd yn rhan o'i fagwraeth a ffydd Gristnogol.

Wrth wrando arno'n canu'r caneuon hyn clywir ei angerdd yn amlygu'i hun yn ystyrlon yn y geiriau a ganai. Nid diystyr oedd y geiriau iddo oherwydd credodd yr hyn a ganodd. Canodd o'r galon yn ogystal ag o'r pen.

O bosibl gellid beirniadu Elvis am ei ffaeleddau dynol ond ymagweddodd yn ostyngedig ynghanol ei fawredd a pharchodd pobl eraill. Rhannodd ei gyfoeth a meddai ar hiwmor iach. Nid bod hyn yn gwneud iawn am ei ffaeleddau oherwydd gwyddai bod arno angen Gwaredwr yn gymaint â'r un dyn arall.

Ymhlith y caneuon *Gospel* a ganodd oedd *Amazing Grace, Crying in the Chapel, He Touched Me, How Great Thou Art* a *Peace in the Valley.* Gwyddom oll am hanes yr emyn *Amazing Grace* sy'n adrodd stori tröedigaeth John Newton. Cyrhaeddodd *Crying in the Chapel* rif 1 yn y Siartiau Pop Prydeinig ym 1965. Cyfansoddwyd *He Touched Me* gan y cerddor Americanaidd Bill



Llun: Flickr by BudCat14/Ross at https://flickr.com/photos/39527581@N07/27861704525

Gaither yn sôn am gyffyrddiad yr Arglwydd ar enaid y Cristion. Cân fawreddog yw *How Great Thou Art* yn datgan mawredd Duw yng Nghrist. Ac ar raglen deledu Ed Sullivan ym 1957 cyflwynodd Elvis y gân *Peace in the Valley* i drigolion Hwngari a ffoesant eu gwlad rhag ymosodiad y Rwsiaid arnynt y flwyddyn gynt gan godi $6miliwn gan y cyhoedd i'w cynorthwyo.

Beth bynnag eich barn am Elvis tystiodd i'r Arglwydd mewn cân gydol ei yrfa ddisglair. Gwyddai y rhoddwyd iddo lais swynol a ddefnyddiodd i foli'r Arglwydd. Ac mae ei ganeuon ar gael o hyd i roi hwb a help i'r Cristion yn y byd.

*Peter Davies*

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

**Cyfres o fyfyrdodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)**

### Wythnos 6

### 'Am berthynas wedi'i hailgymodi â chread Duw'.

### Ysgrythur Effesiaid 4: 22–8

### Myfyrdod

Gweddiwn yr wythnos hon gyda'n partneriaid Cymorth Cristnogol i gefnogi ymdrechion yr eglwysi i ailgymodi dynoliaeth â chread Duw, i edifarhau ac i wneud yn iawn am y gamdriniaeth a gyfrannodd i'r argyfwng hinsawdd sy'n bygwth ein dyfodol. Ar gyfer ei ymgynghoriad eglwysig 2022 gofynnodd Cymorth Cristnogol y cwestiwn canlynol: Sut allwn ni helpu ein gilydd i fod yn fwy unedig mewn gobaith gyda'n cymdogion byd-eang? Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd cafodd ei nodi mai un arwydd gobeithiol yn ystod blynyddoedd diweddar oedd y sylw mwy cyson a roddir i faterion yn ymwneud â chyfiawnder hinsawdd mewn cyd-destun eglwysig. Mae'n amlwg fod gennym ffordd bell i fynd o hyd os ydym am fod yn wirioneddol driw i'n hadduned i ddiogelu rhoddion y greadigaeth. Fodd bynnag, rydym wedi symud o sefyllfa lle'r oedd cyfiawnder hinsawdd yn un o nifer o eitemau ar ein rhestr faith o bryderon oedd yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, i fod yn un lle caiff ei gydnabod fel mater sylfaenol, a hynny yng ngwaith heddwch a chymod.

Mae darlleniad heddiw o'r Ysgrythur yn dangos y cyfrifoldeb a'r potensial ar gyfer adnewyddiad yn ein perthynas â Duw, gyda'n gilydd a chyda'r cread cyfan. Yn gynyddol, mae eglwysi yn sgwrsio am y gwaith cymodi hwn yn nhermau colled a niwed. Maent yn gosod canlyniadau ein dewisiadau o'n blaenau – yn ein ffyrdd o fyw, yn ein diwylliant prynu, a'n hymgysylltiad â gwaith cyfiawnder



hinsawdd – yn enwedig ar gyfer y bobl dlotaf a mwyaf bregus, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae seilio'r gwaith hwn mewn gweledigaeth o gymod, gan gadw'r gobaith o adfywio o'n blaenau, yn ein helpu i ddeall yr aberth y gelwir arnom i'w wneud fel buddsoddiad mewn gwell dyfodol i bawb. Mae'n galw arnom i geisio dod o hyd i ddatrysiadau fydd yn amddiffyn cymunedau bregus sy'n byw ymhell oddi wrthym yn ddaearyddol, yn ogystal â'r rhai sy'n byw yn agos atom ac sy'n dioddef tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o golli eu bywoliaeth o ganlyniad i'r newidiadau economaidd a diwylliannol sy'n mynd law yn llaw â gwaith cyfiawnder hinsawdd. Mae'r weledigaeth Gristnogol o'n dynoliaeth gyffredin yn gwrthod unrhyw ymgais i osod y grwpiau gwahanol hyn yn erbyn ei gilydd, gan gydnabod ein bod yn dibynnu ar ein gilydd a'n rhwymo ynghyd mewn cefnogaeth i'n gilydd.

Cyhoeddwyd papur gan Ymgynghorydd Diwinyddiaeth Cymorth Cristnogol, Bob Kikuyu, yn cynnig myfyrdodau diwinyddol ar thema Colled a Niwed. Mae'r papur yn dangos pa gyfraniad y gall eglwysi ei wneud i'r gwaith hwn, gan siarad yn gyhoeddus am ein gwerthoedd Cristnogol, a thanlinellu yn arbennig y gorchymyn moesol am weithredu dros gyfiawnder hinsawdd. Anogir eglwysi i ystyried eu rhan, wrth ymateb i fethiant perthnasau a ddangoswyd mewn cyfres o gynadleddau rhyngwladol ar lefel uchel. Methodd y rhain â sicrhau'r math o weithredu brys, radical ac adferol, sydd ei angen i gefnogi cymunedau tlotaf a mwyaf bregus y byd, er mwyn sicrhau eu dyfodol. Cawn ein hannog i ystyried sut, mewn cyfnod o fygythiad, gall eglwysi gynnig naratif amgen o obaith ac adferiad drwy osod y sgwrs yn nhermau cymodi.

### Cwestiynau

- Ydy cyfiawnder hinsawdd yn thema gyson pan fydd eglwysi yn dod at ei gilydd yn eich ardal?
- Sut allech chi helpu i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â thema colled a niwed yn eich eglwys leol neu mewn cyd-destun eciwmenaidd?
- Sut allech chi gefnogi actifyddion hinsawdd ifanc yn eich eglwys leol ac/neu yn eich cymuned?

### Camau Gweithredu

- Ystyriwch Neges ar y Cyd 2021 y Patriarch Eciwmenaidd Bartholomew, y Pab Ffransis ac Archesgob Caergaint. Pa bwyntiau gweithredu y gellid eu datblygu o'r neges hon ar gyfer eich eglwys leol neu eich rhwydweithiau eciwmenaidd?
- Ystyriwch ddefnyddio adnodd Cymorth Gristnogol i eglwys ar golled a niwed er mwyn cefnogi ymgysylltiad drwy weddi, codi ymwybyddiaeth ac eiriolaeth yn eich cyd-destun lleol.
- Ymchwiliwch a thrafod pa grwpiau yn eich ardal leol allai deimlo fwyaf bregus ar sail materion yn ymwneud â'r argyfwng hinsawdd. Sut allwch chi eu helpu nhw i deimlo bod eu llais yn cael ei glywed a'i gynnwys o fewn gwaith cyfiawnder hinsawdd?

### Gweddi

Dduw cariadus,
Cydnabyddwn ein hangen am edifeirwch
am gam-drin dy cread,
am esgeuluso ein cyfrifoldeb
i warchod y rhai sydd mewn perygl yn sgil dinistr hinsawdd.
Ennyn yn ein calonnau awydd i gydsefyll
a fydd yn ein tywys i adnewyddu ein perthynas
â'n gilydd,
â thithau,
a chyda'r cread cyfan.
Cadw o'n blaenau'r gobaith
y gellid adfer pob peth
yn dy ras
os gwnawn ni gofleidio'r aberth
a fynnir gan gyfiawnder.
Amen.

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Ebrill 2 – Sul y Blodau, am 7.30yh**
Yr wythnos yma byddwn yn nodi Sul y Blodau. Mae hi hefyd yn Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd, a bydd Nia yn cwrdd â Nath Trevett a'r gweinidog Casi Jones a'i mab Dafydd i ddysgu am eu profiad o fyw gyda'r cyflwr.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Ebrill 2il. 7:30am a 4:30pm**
R. Alun Evans fydd yn cyflwyno emynau ar y thema Sul y Blodau.

**Sul, 2 Ebrill, am 12:00yp**
Oedfa Radio Cymru, yng ngofal Gareth Evans-Jones, Bangor

# Enciliai Ef i'r mynydd …

Mae tymor y Grawys yn gyfle arbennig i arafu er mwyn meddwl am Dduw a myfyrio ar Iesu ei fywyd, ei gariad a'r hyn a gyflawnodd yn ystod y Pasg. Mae'n gwbl amlwg ein bod angen cyfnodau i wneud hyn fel Cristnogion. Gall bywyd fod yn rhy brysur a phob twll a chornel ohono wedi ei lenwi gyda gwaith, gweithgareddau, delweddau a sŵn diddarfod. Rydym yn ddyddiol o dan genllif o wybodaeth ac fe awn yn esgeulus o'n hangen ysbrydol. Er mwyn iechyd rhaid yn gyson ymdawelu a threulio amser yn myfyrio ar Iesu trwy ddarllen y Beibl, gweddïo ac addoli. Oherwydd mae myfyrio arno yn ein trawsnewid. Mae ei addoli yn ein gwneud yn debyg iddo, ac mae arafu i roi mwy o le i Dduw yn cryfhau ac adeiladu ein ffydd. Fel dilynwyr Iesu rydym wirioneddol angen hyn. Ac yn bwysicach na phopeth arall, dyma mae Duw yn ei haeddu gennym.



## Yr Wythnos Fawr

Wrth nesáu ar yr Wythnos Fawr roedd Iesu'n gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd iddo. Ychydig cyn iddo fynd i mewn i Jerwsalem fe ddigwyddodd hyn:

> Wrth fynd i fyny i Jerwsalem cymerodd Iesu'r deuddeg disgybl ar wahân, ac ar y ffordd dywedodd wrthynt, 'Dyma ni'n mynd i fyny i Jerwsalem; fe gaiff Mab y Dyn ei draddodi i'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion; condemniant ef i farwolaeth, a'i drosglwyddo i'r Cenhedloedd i'w watwar a'i fflangellu a'i groeshoelio; ac ar y trydydd dydd fe'i cyfodir.' (Mat. 20:17–19)

Yma, galwodd Iesu'r disgyblion o'r neilltu er mwyn eu rhybuddio beth oedd yn debygol o ddigwydd. Un peth a sylweddolwn yw bod hyn effeithio yn fawr ar Iesu ac yn bwysau trwm arno.

Weithiau oherwydd bod Iesu yn Fab Duw tueddwn i feddwl nad oedd dim yn effeithio arno ac fe anghofiwn am yr ing oedd yn ei galon. A thrwy gydol hanes y Pasg deuwn yn ymwybodol o'r ing hwn. Pwysleisir hyn yn nigwyddiadau gardd Gethsemane.

## Gardd Gethsemane

Fel hyn y dywed Mathew beth o'r hanes:

> [36]Dyma Iesu'n mynd gyda'i ddisgyblion i le o'r enw Gethsemane. 'Eisteddwch chi yma,' meddai wrthyn nhw, 'dw i'n mynd draw acw i weddïo.' [37]Aeth â Pedr a dau fab Sebedeus gydag e, a dechreuodd deimlo tristwch ofnadwy a gwewyr meddwl oedd yn ei lethu. [38]'Mae'r tristwch dw i'n ei deimlo yn ddigon i'm lladd i,' meddai wrthyn nhw, 'Arhoswch yma i wylio gyda mi.'
>
> (Mat. 26:36–39)

Roedd brwydr yng nghalon yr Iesu rhwng bod yn ffyddlon i'w Dad nefol ac ofn am yr erchyllterau oedd i ddod i'w ran. Mae'r cwpan chwerw yn y darlleniad yn symbol o lid Duw yr oedd Iesu i'w dderbyn wrth farw ar y Groes. Llid am ein pechodau ni fel dynoliaeth. (*a'i daro â chleddyf ei Dad*.) Roedd i gael ei gosbi yn ein lle. Onid haws fyddai iddo fod wedi peidio ag wynebu'r hyn a wnaeth, a gadael ei waith fel Achubydd dynolryw? Ond yn ei fynwes llosgai gariad anghymharol Duw tuag atom. Roedd am fod yn ufudd i'w Dad er mwyn ein cymodi ni gydag Ef a delio gyda'r pechod sy'n ein gwahanu oddi wrtho. Roedd am wneud ewyllys ei Dad. Disgrifia Thomas Lewis ing dirdynnol yr Iesu yn yr ardd fel hyn,

Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd,
  a'i chwys fel defnynnau o waed,
aredig ar gefn oedd mor hardd,
  a'i daro â chleddyf ei Dad,
a'i arwain i Galfari fryn,
  a'i hoelio ar groesbren o'i fodd;
pa dafod all dewi am hyn?
  Pa galon mor galed na thodd?

Diolch i'r drefn fe ufuddhaodd yr Iesu i ewyllys ei Dad. Pe na bai wedi gwneud hynny ni fyddai iachawdwriaeth na gobaith inni. Er ei fod yn Fab Duw ac yn berffaith fe wynebai'r Iesu amheuon a themtasiynau yn gyson. Un ffordd oedd yr Iesu yn delio gyda hyn oedd rhoi amser o'r neilltu i'w dreulio gyda'i Dad nefol. Os oedd yr Iesu yn gweld yr angen i wneud hynny, pa faint mwy yr ydym ni angen cymdeithas gydag Ef?

# Colofn Geir-iau

## Obama



Rhyw ddwy flynedd yn ôl darllenais drwy hunangofiant cyn arlywydd America, Barack Obama. Wrth i mi ysgrifennu'r geiriau yma, dwi'n ymwybodol iawn fy mod yn swnio'n uchel ael ac yn ddiwylliedig. Mae'r *façade* yn denau ac yn bell o'r gwir! Anrheg Nadolig i ffrind oedd y llyfr, ond mi ddigwyddodd y Nadolig cyn i mi weld fy ffrind, ac mi gafodd fy ffrind y llyfr gan rywun arall. Gyda pheth siom, edrychais am anrheg wahanol iddo a phenderfynu dechrau ar ddarllen y llyfr fy hun.

Gan fod gennyf ferch fach tair oed a mab blwydd a hanner, dydw i ddim yn cael llawer o amser i ddarllen yn ystod y dydd, felly yn y gwely byddai'n gwneud rhan fwyaf o fy narllen. Mae'n rhaid dweud fod hunangofiannau wedi dwyn fy sylw'n llwyr, yn rhy aml maen nhw'n fy nhynnu i yn oriau mân y bore i orffen pennod neu ddarn diddorol.

### Gobaith

Un o'r pethau sydd wedi aros gyda mi wrth ddarllen am brofiadau a barn Obama ynghyd â chofio yn ôl i'w etholiad yn 2008 ydy pa mor allweddol oedd y gair a'r cysyniad o 'obaith' i'w ymgyrch. Mae'n siŵr ein bod yn cofio'r poster enwog o wyneb Obama uwchben y gair 'HOPE' a ddaeth yn symbol cryf o'r neges oedd yn ganolog i'w fuddugoliaeth. Neu efallai eich bod yn cofio'r gri dorfol, 'YES WE CAN' a ddatblygodd fel rhan o'r ymgyrch. Yn wir daeth bron iawn yn anthem i gefnogwyr y Democratiaid am y cyfnod, gan uno pobl o gredoau gwleidyddol gwahanol. I'w gefnogwyr, dyma oedd arweinydd ifanc, cyffrous a fyddai'n trawsffurfio'r wlad o'i chorun i'w sawdl, ei throi o fod yn genedl lygredig, annheg, i fod yn baradwys o degwch economaidd a chymdeithasol fyddai'n goleuo'r llwybr i weddill y byd! Byddai'r dyn hwn yn adfer yr hollt a ddatblygodd rhwng y gwahanol

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## Synnwyr cyffredin anghyffredin

Mae'n ymddangos i mi nad dim ond synnwyr cyffredin sy'n anghyffredin o brin y dyddie yma, yn fwy na hynny, aeth pethau fel cariad, trugaredd, cydymdeimlad a charedigrwydd yn bethau prinnach fyth. Ac mae'n teimlo fel pe bai nawr yn amser peryglus ar gyfer cymaint o bethau yn ein cymdeithas, ond yn ein byd ni'n ehangach hefyd. Mae'r byd ar groesffordd. A phan mae rhywun yn cyrraedd croesffordd, rhaid penderfynu pa ffordd i'w chymryd. Daeth yn amser pwyso a mesur felly, yn amser i edrych ar bethau eto a gwneud dewisiadau mwy na dim ond, beth wisga i heddi neu beth gaf i i ginio. Achos, dim ond un byd sydd gyda ni, a dim ond ni sydd yma, ar y byd hwn.

### Dim digon i'w gael

Felly beth, yn enw pob dim da, sy'n bod arnon ni? Sdim digon i gael, oes e? Ond bobol, mae'n *rhaid* bod digon i gael, achos ar ôl i ni ddihysbyddu'r cwbwl, bydd pob dim yn sarn a ddown ni fel dynoliaeth ddim yn ôl o hynny'n hawdd – er mae'n siŵr y bydd yr hen ddaear yn ddigon hapus i gario mlaen hebddon ni, cofiwch. Ac nid dim ond rheibio'r blaned hyd at argyfwng yr ydyn ni. Mi ydyn ni'n ymosod ar ein gilydd, yn creu gelynion allan o bobl eraill. I beth? I ba bwrpas go iawn? Nagyn ni wedi dysgu gwersi hanes? Wel, ar sail tystiolaeth druenus heddiw, nagyn, dydyn ni ddim.

### Athronydd, hanesydd a nofelydd

Llynedd, yng Ngŵyl y Gelli, ces gyfle i glywed yr athronydd A. C. Grayling, yr hanesydd Simon Schama a'r nofelydd Elif Shafak yn siarad am achub y byd a sut fedrwn ni wneud hynny. Sdim byd fel anelu'n uchel oes e? Teitl eu sgwrs ardderchog nhw oedd: *Democracy: Is Global Collaboration to Save the World Possible?* Iaics! Tipyn o deitl, ac a dweud y gwir wy'n dal i feddwl am yr hyn ddywedon nhw flwyddyn yn ddiweddarach. Dyma oedd criw deallus, doeth a threiddgar.



Fe sonion nhw am ryfeloedd, am gythrwfl, am gynnydd byd-eang yn y gefnogaeth i'r asgell dde sy'n sathru ar y gweiniaid, yn malu cymdeithas ond yn edrych ar ôl y llond llaw cyfoethog. Fe sonion nhw am y pandemig a roddodd dro yng nghwt pawb, ac sy'n dal i wneud. Fe sonion nhw am yr argyfwng amgylcheddol sy'n prysur oddiweddyd ein byd o bob cyfeiriad. Fe sonion nhw am y ffaith ein bod ni wedi mynd yn fwy unigolyddol, hunanol, fel petaem ni wedi colli'r gallu i gydweithio a gweithredu er lles y mwyafrif. Roedden nhw'n wybodus iawn am bob math o bethau. Ond yn y bôn, mi oedden nhw mor ddiateb ag unrhyw un ohonom ynglŷn â sut oedd datrys problemau'r byd a sut oedd modd cydweithio er lles, nid er dinistr. Ers pryd oedd y byd a'i boblogaeth yn meddwl bod hunanoldeb yn beth mor ddeniadol? (Peidiwch ag ateb, mae gen i syniad go lew.)



### Atebion

Dyma nhw'n cychwyn ceisio rhoi atebion. Awgrymwyd efallai y dylid efelychu tactegau'r adain dde o weithredu gwallgo, eu *fake news*, eu gwrthod bod yn atebol am eu gweithredoedd. Ond dim ond awgrym tafod mewn boch oedd hyn ac fe basiwyd heibio i hynny achos fe wyddom yn rhy dda mai tactegau plant bach anaeddfed yw'r rhain mewn gwirionedd a bod yn rhaid i ni ymddwyn fel oedolion – er ein lles ein hunain, er lles ein gilydd ac er lles y byd. Am ryw reswm, cafodd y byd 'ganiatâd' i ymddwyn yn wael am gyfnod, fe welwn ni hynny'n amlwg yn y math o wleidyddion a etholir, ac mae'r byd yn dioddef sgil-effeithiau'r dewisiadau a wnaed. Ac felly beth oedd y tri hwn yn awgrymu y dylem ni ei wneud i wrthwneud y difrod a wnaethpwyd i'r byd? Yn gyntaf, ac yn fwyaf pwysig, peidio â digalonni ar unrhyw gyfrif. Yna, roedden nhw'n dweud bod angen i ni fyw ein bywydau ni mor dda ag sy'n bosib, yng ngeiriau Michelle Obama, 'When they go low, we go high.' Dangos y ffordd i bobl eraill drwy'r hyn a wnawn ni. Yna, bod angen i ni rannu'r straeon da gyda'n gilydd, bod angen i ni ddweud ein hanesion fel nad ydyn ni'n diflannu a bod pobl eraill yn gwybod fod pethau fel cariad, trugaredd, cydymdeimlad a charedigrwydd yn bodoli yn y byd ac yn bwysig, a bod yna bobl sy'n prisio hynny.

### Wrth ein traed

Roedd y tri yn credu mai dechrau wrth ein traed oedd yr unig ffordd ymlaen gyda hyn. Os ddechreuwn ni wrth ein traed bob un ohonom yna, wel, mae rhyw fath o obaith y bydd y pethau daionus hyn yn dod yn heintus ac y gwelwn ni newid go iawn yn ein byd. Gall pob un ohonom wneud hynny, siawns. A dyma ni felly, yn clywed straeon ofnadwy yn y newyddion am bob math o bethau'n feunyddiol. *Rhaid* i ni ddal i gredu fod cariad, trugaredd, cydymdeimlad a charedigrwydd yn bodoli yn y byd a rhaid i ni ddal i weithredu'r pethau hyn ein hunain. Bob un ohonom. Bob dydd. Y mae Iesu'n dweud wrthym ni i beidio â digalonni, i ddal ati, i ddangos y ffordd a gwneud pethau da – y mae o fewn gallu pob un ohonom i wneud hyn.

A beth am synnwyr cyffredin? Mae'n swnio'n hen beth di-nod, ydyw e? Chi'n gwbod, y peth hwnnw roedd eich mam (a mamau pob un ohonom, glei) yn ei rannu gyda ni fel ein bod yn medru cymryd cam yn ôl, asesu sefyllfa, yn hytrach na syrthio'n bendramwnwgl i ganol trybini o ran ein gweithredoedd a'n geiriau. Wel, cweit.

**Elinor Wyn Reynolds**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Heulwen dan Gymylau – parhad

Pwysleisiwyd mai'r her i bob eglwys yw creu man diogel i rai sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac fe wyddom i gyd fod ein capeli mewn sefyllfa gref iawn i wireddu'r nod honno, gan ein bod yn gymuned ofalgar wrth natur, gydag ystod eang o dalentau a phrofiad ymhlith ein haelodau, ac mae gennym adeiladau a chyfleusterau eraill y medrwn ni eu defnyddio at ddibenion da.

### Cyfle i fod yn fwy uchelgeisiol

Eglurodd y ddau siaradwr fod y ffeil ei hun yn hunangynhaliol os mai dyna'r dymuniad. Hynny yw, does dim angen unrhyw beth arall ar unrhyw eglwys i weithredu. Ond mae yna hefyd gyfle i fod yn fwy uchelgeisiol, oherwydd i gyd-fynd â'r ffeil mae yna nifer o adnoddau a phethau ychwanegol ar gael ar wefan Undeb. Mae modd dewis o blith nifer o ddolenni sy'n ein tywys i wefannau eraill i gael rhagor o wybodaeth, i weld ambell i fideo ac i glywed cerddoriaeth,

Os oes unrhyw gyfundeb arall yn dymuno cael sesiwn debyg, mae croeso iddyn nhw gysylltu ag aelodau'r gweithgor drwy swyddfa'r Undeb yn Nhŷ John Penri.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Colofn Geir-iau – parhad

garfannau gwleidyddol ac yn galluogi'r llywodraeth i arwain y bobl.

### A fu trawsffurfio?

Bymtheng mlynedd yn ddiweddarach, ydy'r byd wedi ei drawsffurfio er gwell? A allwn ni ddweud fod yr hollt cymdeithasol hwn wedi ei gau? Mae'n ddigon posib fod rhai rhannau o'r UDA, ac o'r byd, wedi newid er gwell, ond mi dybiwn i fod nifer o'r un problemau cymdeithasol yn parhau neu hyd yn oed wedi gwaethygu. Ble mae hynny felly yn gadael ein hyder mewn gobaith? Ydy gobeithio yn beth ofer i'w wneud neu'n beth plentynnaidd?
Mae adnodau cyntaf 1 Pedr 1:3 yn rhoi golwg iach ar sut beth y mae Duw wedi cynllunio gobaith i fod:


> 3 Clod i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Mae wedi bod mor drugarog aton ni. Mae'n ddechrau cwbl newydd! Dŷn ni wedi cael ein geni unwaith eto! Ac am ei fod wedi codi Iesu Grist yn ôl yn fyw dyn ni'n edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol.

Mae'r adnodau hyn, ynghyd ag adnodau cychwynnol Rhufeiniaid 5, yn pwyntio at obaith sicrach nag arweinwyr bydol na chryfder pobl. Mae ein gobaith ni fel Cristnogion wedi ei seilio ar y ffaith fod Iesu Grist wedi ei godi yn ôl yn fyw. Os ydy hyn wedi digwydd, ac rydym yn credu hynny, yna gall ein gobaith ni fod yn ddiddiwedd gan ein bod yn gwybod fod yna Dduw hollgariadus sydd yn barnu'r byd yn gwbl deg. Gallwn fod yn hyderus ein bod ni hefyd yn cael ein geni o'r newydd – allan o afael euogrwydd – i mewn i deulu newydd Crist. Tybed sut ydym ni'n ymateb i'r hyn mae Crist yn ei gynnig?

**Gwion Dafydd**

*Mae Gwion Dafydd wedi bod yn briod â Sarah ers 2015, a bellach mae ganddyn nhw ddau o blant: Buddug a ymddangosodd yn 2019 ac Osian wnaeth ymuno â nhw yn 2021. Mae'r pedwar yn byw yn Nyffryn Clwyd. Mae Gwion yn athro Cymraeg yn Ysgol Brynhyfryd yn Rhuthun. Yn ei amser hamdden (sydd yn prysur ddiflannu po fwyaf o blant sy'n ymuno â'r teulu) mae'n mwynhau dringo, mynydda, gweithgareddau dŵr a chwarae gemau cyfrifiadurol.*






# Diolch

Hoffai Beti-Wyn, Elin a Sara ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn marwolaeth tad a thad-cu annwyl iawn. Mae ein gwerthfawrogiad y tu hwnt i eiriau.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*